CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 21 HYDREF 2014

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng W R Owen

Cynghorwyr
W T Owen, I C Thomas, A W Bohana, M Thomas, G Thomas,
E Lovgreen, E Hughes, T Thomas, K Williams, W L Davies

1.Ymddiheuriadau
B Owen, C Williams, H W Roberts, A Hopcyn

2.Cyhoeddiadau'r Maer
Diolch i'r Dirprwy Faer am fynychu noson Champion of Champions

3.Datgan Buddiant Personol

Cyng G Thomas eitem 11

4.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Cofnodion pwyllgor adloniant

5.Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i) Cyngor, 7 Hydref 2014

ii) Pwyllgor adloniant 21 Hydref 2014
Cafwyd diweddariad ar y lleoliadau a'r clerc wedyn i ofyn wrth Eglwys Santes Fair neu unrhyw gapel addas . Dibynnu ar y lleoliad dan do cychwyn y noson wrth ymgynnull ar Y Maes . Wedi cael prisiau am gapiau sïon corn a glowsticks am pris teg . Clerc efo'r hawl i weithredu i gario ymlaen i ffeindio rhywle dan do addas ac yna hysbysebu'r ysgolion , cadarnhawyd bod Cimera ar gael .
Gŵyl Dewi ystyried gofyn wrth yr archfarchnadoedd noddi artist ir ysgolion , clerc i ofyn i bob cyngor Ysgol ystyried be

fydda nhw yn hoffi wneud gan nodi bod yna grant o £100 ar gael gan y Cyngor tuag ato

Penderfynwyd

i.) Derbyn fel rhai cywir

ii.) Derbyn y cynnwys ar clerc i gario ymlaen i weithredu

6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y Ceisiadau Cynllunio **–** ***Dim Ceisiadau cynllunio wedi ei dderbyn***

7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu

8. Dogfen Weithredol y Cyngor

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

9. Rhybudd o gynnig Cyng. W. R. Owen

Pâr: costau

Penderfynwyd

Wedi tynno nol

10. Rhybudd o Gynnig Cyng. W. R. Owen

Pâr: Costau undeb i Gynghorwyr

Penderfynwyd

Wedi tynnu nol

11. Llythyr CAB

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

12. E-bost Llywodraeth Cymru

Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth a trafod unwaith fydd y cynllun yn weithredol

13. Heddlu Gogledd Cymru

Ymgyrch diweddara

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

14. Ymateb Cyngor Gwynedd

Pâr: Parc Tref Caernarfon

Cafwyd gwybodaeth am ddeddf Morfa Seiont Act 1882 gan Cyng T Thomas

Penderfynwyd

Anfon at Hywel Williams AS i ofyn wrtho ymchwilio i weld a yw'r ddeddf yn dal yn bodoli cyn symud ymlaen er mwyn sicrhau pwy sydd yn berchen ar y parc

15. E-bost Mantell Gwynedd

Pâr: Cynllun 'Ffrindiau'

Penderfynwyd

Estyn gwahoddiad fel siaradwyr gwadd i ddangos fideo 15 munud

16.Unllais

Adroddiad diweddaraf Betsi Cadwaladr

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

17. Cais i ddefnyddio Deffroad Cymru

Penderfynwyd

Caniatáu ond efo'r amodau presennol sef £100 a geiriad perthnasol

18. CTC

E-bost parthed aelodaeth anrhydeddus

Penderfynwyd

Cefnogi'r enwebiadau

19. Ymatebion parthed Llunio Strategaeth Lletya Pobl Hyn

Penderfynwyd

Derbyn a danfon sylwadau Cyng A Hopcyn

20. Ymateb cydnabyddiaeth gan Cyngor Gwynedd

Pâr: Rhybudd o Gynnig Cyng. K. Williams
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

21. E-bost Alun Wyn Jones Cyngor Gwynedd

Par: Plac Mynwent Llanbeblig
Penderfynwyd
Cyng G Thomas i gynrychioli'r Cyngor

22. Cerdyn diolch gan Osian Dwyfor Jones
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

23 Cynllun Cymunedol Fferm Parciau
Diolchodd y Clerc i Cyng Sian Gwenllian am drafod efo cwmni gan ddarganfod bod y ddau Gyngor yn fod wedi derbyn y wybodaeth ar e-bost (ond heb) . Roedd hi hefyd wedi llwyddo i godi y swm o'r ddogfen wreiddiol . Eglurodd y clerc mae pot o arian fyddai yn cael eu rannu rhwng y ddau Gyngor hanner a hanner sydd dan sylw . Y cynnig sydd gerbron ydi £5000 yn y flwyddyn gyntaf fel "lump sum" a £1000 y flwyddyn am 10 mlynedd
Penderfynwyd
Gofyn i'r clerc holi cyrff gwahanol fel Unllais a clercod eraill i weld os ydi'r swm yn argoeli yn un teg am y math yma o gynllun cyn dod i benderfyniad

24.**Cwestiynau**

A fydd y problem offer cyfieithu wedi datrys cyn y cyfarfod nesaf? Bydd

Gorffennodd y cyfarfod am 6.35

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....